



Enw'r Polisi:	Iaith
Dyddiad Derbyn:	Medi 2015
Dyddiad Adolygu:	Medi 2018
Polisi Clwstwr neu Ysgol:	Polisi Ysgol Glan Clwyd
Polisi Statudol neu an-statudol:	An-Statudol

1.0 Nod - Ysgol Gymraeg

Sefydlwyd Ysgol Glan Clwyd er mwyn darparu addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch Gymreig gan roi cyfle i ddisgyblion ddatblygu'n rhugl ddwyieithog. Cymerwn yn ganiataol fod pob rhiant sy'n anfon ei blentyn i'r ysgol yn derbyn ac yn cefnogi hyn ac yn cefnogi pob ymdrech a wneir gan yr ysgol i ymestyn y ddarpariaeth addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a'r iaith a siaredir â phob disgybl ar bob achlysur (ac eithrio o fewn gwersi Saesneg). Cymraeg yw'r iaith y dylai pob disgybl ei defnyddio'n rheolaidd felly, er lles ei addysg.

Gan fod cynifer o ardaloedd o fewn ein dalgylch wedi eu Seisnigeiddio mae'n rhaid i'r ysgol wneud pob ymdrech i greu a chynnal awyrgylch Gymreig er mwyn sicrhau llwyddiant addysg Gymraeg. Cynigir nifer o weithgareddau allgyrsiol sydd yn rhoi cyfle i'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn wedi eu trefnu ar y cyd gyda Menter yr Iaith, Yr Urdd a'r cynllun 5x60.

2.0 Datblygu dwyieithrwydd

- Mae Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn ysgol sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif gyfrwng dysgu ond mewn modd sy'n sicrhau bod disgyblion yn tyfu'n hyderus ddwyieithog
- Daw manteision amlwg wrth ddatblygu'r fath fedr, megis deall syniadau'n well, a chynnig gwell cyfleon gyrfa wedi cyfnod ysgol
- Daw'r disgyblion o gefndiroedd Cymraeg, Saesneg neu gymysg i fanteisio ar y cyfleon arbennig

3.0 Sut mae'r ysgol yn ceisio datblygu'r medrau hyn?

- Cymraeg yw iaith naturiol a swyddogol cyfathrebu yn yr ysgol. Ethos Cymreig a Chymraeg sy'n perthyn iddi.
- Nod yr ysgol yw sicrhau bod pob disgybl, trwy addysg gyfrwng Cymraeg, yn datblygu medr cyfartal a'r uchaf posib yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn gallu symud yn rhwydd ac effeithiol o'r naill iaith i'r llall yn ôl y gofyn.

- Sefydlwyd Ysgol Glan Clwyd er mwyn creu'r amgylchiadau i wneud hyn. Mae'r ddarpariaeth yn ddilyniant naturiol o'r gwaith a wneir yn ysgolion cynradd y dalgylch, a'r nod yw sicrhau fod plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg i'r graddau eithaf posibl.
- Addysgir ac asesir bob pwnc (heblaw am Saesneg) drwy'r Gymraeg ond defnyddir sawl ffordd adeiladol i ddiogelu hyfedredd y disgyblion mewn dwy iaith drwy roi sylw priodol a theilwng i'r Saesneg.
- Mae holl staff yr ysgol hon yn broffesiynol fedrus mewn Cymraeg a Saesneg.
- Bydd dulliau dysgu ymhob pwnc yn adlewyrchu'r nod sylfaenol hwn o ddiogelu'r Gymraeg a cheisio hybu dwyieithrwydd.
- Bydd pob disgybl yn astudio Cymraeg a Saesneg hyd at ddiwedd blwyddyn 11 a sefyll arholiadau priodol yn y pynciau hyn.
- Bydd y disgyblion yn sefyll arholiadau a phrofion cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhoddir pob cymorth ac arweiniad i bob disgybl i feithrin ei ddwyieithrwydd, yn enwedig y rhai hynny sydd â'r Gymraeg yn iaith wanaf iddynt.

4.0 Y Cynllun Trochi

- Croesewir dysgwyr Cymraeg i Ysgol Glan Clwyd. Yn wir mae tua 70% o'n disgyblion yn dod o deuluoedd lle nad oes Cymraeg yn y cartref.
- Mae cynllun ar waith yn yr ardal i roi ail gyfle i ddisgyblion 11 oed drosglwyddo i Ysgol Glan Clwyd o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i ddysgu a gweithio drwy'r Gymraeg.
- Os oes yna ddosbarth o ddysgwyr ail gyfle, byddant yn treulio amser yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf eu bl.6 yng Nglan Clwyd. Dysgir hwy gan athrawon yr ysgol.
- Cyn penderfynu ymuno â'r cynllun, gwahoddir rhieni'r "dysgwyr ail gyfle" i gyfarfod y Pennaeth a Chydlynnydd y Cynllun i drafod yr hyn a ddisgwylir ganddynt hwy yn ogystal â gan eu plant.
- Bydd amserlen y "dysgwyr" wedi ei addasu'n arbennig i ddatblygu eu hiaith a'u gallu / dealltwriaeth o'r gwaith.

5.0 Y GYMRAEG - Canllawiau i staff

- Ysgol gyfun Gymraeg yw'r ysgol sy'n derbyn nifer fechan o ddisgyblion di-Gymraeg yn 11 oed.
- Dysgir pob pwnc (ar wahan i'r Saesneg) trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Pob aelod o'r staff i siarad Cymraeg â phob disgybl ar bob achlysur. Yr eithriad yw'r gwersi Saesneg.
- Siarad yn ddwyieithog gyda'r dysgwyr ar y dechrau. Defnyddio llai a llai o Saesneg. Pawb i fod yn ymwybodol o eirfa a phatrymau cystrawen y dysgwyr.
- Y Pennaeth yn ymrwymo i frwydro i gael cymaint o adnoddau ychwanegol - athrawon, offer, arian, cynorthwyyr, cymorth sirol/cenedlaethol, ag sy'n bosibl.
- Pawb yn derbyn pwysigrwydd gweithgareddau allgyrsiol.
- Pawb yn manteisio ar bob cyfle i siarad Cymraeg mewn sefyllfeydd ffurfiol ac anffurfiol.
- Bod pob adran yn cynnwys polisi datblygu llythrennedd o fewn eu rhaglenni gwaith sydd yn cyd-blethu â pholisi'r ysgol gyfan.
- Bod yn ymwybodol o lefelau iaith ac oed darllen disgyblion wrth lunio tasgau a thafleuni gwaith. Rhaid nodi'r oedran y mae'r gwaith yn cael ei baratoi ar ei gyfer wrth gysylltu â'r cyfieithydd.

- Bod Gwersi Her, BAC a chyfnodau tiwtora yn cael eu defnyddio i'w heithaf i gael y plant i siarad Cymraeg ac i ymfalchio yn hynny.
- Manteisio ar weithgareddau allgyrsiol a'n hymwneud â phlant mewn sefyllfaoedd anffurfiol; gwneud ein gorau i fagu ymwybyddiaeth o Gymreictod.
- Pawb i daro i mewn i bob sgwrs Saesneg ar bob achlysur. Neb yn osgoi'r broblem.
- Yr unig ffordd ymlaen yw i ni i gyd fynd gyda'n gilydd. Mae'n her na allwn ei hosgoi. Os awn ymlaen gyda'n gilydd, gydag un llais, ennill a wnawn. Mae gwelliant; - mae llawer o ffordd i fynd eto.
- Pawb i ddilyn canllawiau torri rheolau'r ysgol os yw disgybl yn mynnu siarad Saesneg.